Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Cylchlythyr | Circular

# Canlyniadau'r adolygiad o gostau ychwanegol Astudio trwy Gyfrwng y Gymraeg mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 20 Ebrill 2023 |
| **Cyfeirnod:** | W23/08HE |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru<br>Penaethiaid colegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb |
| **Cyswllt:** | Enw: Hedd Boyles<br>E-bost: hedd.boyles@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canlyniadau adolygiad London Economics (LE) Wales o gostau ychwanegol Astudio trwy Gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canlyniadau adolygiad London Economics (LE) Wales o gostau ychwanegol Astudio trwy Gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

## Cefndir

2. Mae gan Lywodraeth Cymru strategaeth i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Yn ymgynghoriad cam un ynghylch adolygiad CCAUC o gyllid addysgu, fe wnaethom gadarnhau y byddem yn comisiynu adolygiad newydd o gostau ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'r canlyniadau'n sail i unrhyw newidiadau o ran sut yr ydym yn cyllido darpariaeth addysg uwch Cyfrwng Cymraeg, fel rhan o'r adolygiad o gyllid addysgu, i ategu cynnydd tuag at darged Llywodraeth Cymru.

3. Yn 2022, fe roddom ni gomisiwn i LE Wales i gynnal ymchwil i gostau ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch (AU). Fe wnaeth yr adroddiad hwn ddiweddaru agweddau ar y gwaith a gomisiynodd CCAUC gan London Economics yn 2006. Fe ofynnom ni i LE Wales ddarparu argymhellion seiliedig-ar-dystiolaeth i CCAUC ynghylch dulliau posibl o ariannu darpariaeth AU cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys adnabod swm rhesymol ar gyfer ymgodiad i'w ddefnyddio mewn premiwm cyfrwng Cymraeg, lle y bo'n briodol.

4. Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol i CCAUC ym mis Tachwedd 2022 ac fe gafodd argymhellion a ddeilliodd o ystyriaeth gan CCAUC i'r adroddiad hwn eu cytuno gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023.

Canlyniadau Adroddiad LE Wales

5. Mae'r adroddiad ar yr adolygiad o gostau ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg i'w gael yn **Atodiad A.**

6. Mae prif gasgliadau'r adolygiad fel a ganlyn:
   - Daeth LE Wales i'r casgliad bod y gost ganolrifol y myfyriwr y credyd ar gyfer modiwlau cyfrwng Cymraeg (CC) yn sylweddol uwch, sef £19, o'i gymharu â £9 ar gyfer cyfrwng Saesneg (CS). Y prif rheswm dros hyn yw bod carfannau CC yn tueddu i fod yn llai o ran maint na charfannau CS a oedd wedi cynyddu o ran maint ers adolygiad 2006. Ar adeg adolygiad 2006 roedd y gost ganolrifol y myfyriwr y credyd ar gyfer modiwlau CC yn £19 o'i gymharu ag £17 ar gyfer darpariaeth CS.
   - Yn nodweddiadol mae gan fodiwlau CC niferoedd sylweddol is o fyfyrwyr wedi'u cofrestru arnynt na modiwlau CS, sy'n golygu bod y gost gyfartalog y myfyriwr y credyd yn uwch yn gyffredinol ar gyfer darpariaeth CC.
   - Mae ffactorau eraill a oedd yn effeithio ar gost darparu modiwlau CC yn berthynol i fodiwlau CS yn cynnwys: pa un a oedd y modiwlau'n newydd; y dull astudio a'r maes pwnc astudio gyda gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg neu feddygaeth (STEMM) yn tueddu i fod â chostau uwch na phynciau eraill, gan bod y rhain yn nodweddiadol yn

golygu bod angen nifer uwch o oriau cyswllt oherwydd gweithgareddau mewn labordai neu weithgareddau eraill.

7. Canfu'r adolygiad, yn ôl y disgwyl, fod darpariaeth CC yn gyffredinol yn ddrutach i sefydliadau ei rhoi. Mae ein hymateb ni i ganlyniadau'r adolygiad i'w weld isod.

Cyllid CCAUC ar gyfer darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

8. Mae darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn dal i fod yn faes blaenoriaeth y mae angen cyllid ychwanegol parhaus ar ei chyfer er mwyn i sefydliadau lwyddo i gyfrannu at strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

9. O ystyried y byddwn yn gweithredu o fewn cyllideb debyg yn 2023/24 o'i gymharu ag yn 2022/23, mae'r cyfleoedd i wneud newidiadau sylweddol i'n cyllid Cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig.

10. Rydym wedi trafod canlyniadau'r adroddiad gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan gynnwys sut y gallwn gysoni ein priod drefniadau cyllido yn fwy i sicrhau effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i fyfyrwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

11. Fe wnaethom ystyried canlyniadau'r adroddiad fel rhan o'n hadolygiad ehangach o gyllid addysgu. Fe wnaethom ystyried opsiynau ar gyfer sut y gellid cyllido darpariaeth Cyfrwng Cymraeg, a oedd yn cynnwys integreiddio hynny â'r model seiliedig-ar-gredydau diwygiedig a ystyriwyd yn yr adolygiad o gyllid addysgu.

12. Fe wnaethom hefyd ystyried cyflwyno cyllid premiwm CC ar gyfer yr holl ddarpariaeth israddedig ac ôl-radd amser llawn a addysgir. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu bod angen peth wmbredd yn fwy o gyllid nag sydd gennym ar gael ar hyn o bryd.

13. Fel mesur interim, ac i ddynodi'r cyfeiriad teithio sy'n angenrheidiol i ategu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, byddwn yn ehangu'r premiwm Cyfrwng Cymraeg presennol (nad yw ond ar gael ar hyn o bryd ar gyfer credydau israddedig rhan-amser a gaiff eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg) i gynnwys credydau israddedig amser llawn sy'n cael y premiwm pynciau drud neu'r premiwm pynciau cost uwch a gaiff eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r pynciau hyn fel a ganlyn:

- Meddygaeth a Deintyddiaeth (anghlinigol).
- Gwyddoniaeth.
- Peirianneg a Thechnoleg.
- Gwyddorau Mathemategol, TG a Chyfrifiadura.

14. Byddwn hefyd yn cynyddu'r ymgodiad a ddefnyddir yn y premiwm CC (34% ar hyn o bryd). Rydym yn modelu opsiynau fforddiadwy a byddwn yn cadarnhau'r ymgodiad pan fydd y dyraniadau cyllid ar gyfer 2023/24 yn cael eu cyhoeddi.

15. Mae ein prosesau cyllidebol yn mynd rhagddynt yn barhaus ac rydym yn disgwyl cadarnhau ein dyraniadau cyllid terfynol ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 erbyn diwedd mis Gorffennaf 2023. Bydd gwybodaeth am ein tybiaethau cyllido ar

gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 yn cael ei chylchredeg i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC ym mis Ebrill 2023.

## Rhagor o wybodaeth

16. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Hedd Boyles (hedd.boyles@hefcw.ac.uk).

## Asesu effaith ein polisïau

17. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio i asesu'r effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb.

18. Canfu'r asesiad o'r effaith y dylai'r cynnig i ehangu'r premiwm Cyfrwng Cymraeg i gynnwys myfyrwyr amser llawn sy'n astudio pynciau drud a phynciau cost uwch trwy gyfrwng y Gymraeg gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a chynyddu cyfleoedd i unigolion sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn parhau i gydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gysoni ein trefniadau cyllido er mwyn cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i fyfyrwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, yn awr ac yn y dyfodol.